**Sir Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 af Chwefror 2017

Annwyl Nick,

**Gwaith Craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2015-16**

Amgaeaf gopi o ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad uchod a gaiff ei gyflwyno gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich gwaith gofalus a chytbwys wrth gynnal yr ymchwiliad a chynhyrchu'r adroddiad.

Rwyf yn disgwyl mai hwn fydd fy ymateb ffurfiol olaf i adroddiad Pwyllgor cyn imi gamu i lawr. Hoffwn achub y cyfle hwn felly i ddiolch i'r Pwyllgor, a'i ragflaenydd, am yr her a'r cymorth y mae wedi'u rhoi imi yn ystod fy mhedair blynedd diwethaf fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

Cofion cynnes,

Derek

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • Website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2015-16:**

*Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn gweithio i gyflwyno'r wybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon mewn dull mor syml â phosibl. Wrth wneud hyn dylid ystyried defnyddio diagramau a ffeithluniau i wneud gwybodaeth allweddol mor ddarllenadwy â phosibl.*

Ymateb: **Derbyniwyd.**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adborth cadarnhaol y Pwyllgor ar ei gwaith hyd yma i symleiddio'r cyfrifon. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer i wella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno yn y cyfrifon yn unol â'r prosiect symleiddio ehangach, a chan gynnwys defnyddio diagramau a ffeithluniau, proses o welliannau graddol yw hon a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwelliannau pellach yng nghyfrifon 2016-17.

*Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn dosbarthu canllawiau arfer gorau ar adrodd ar salwch. Dylai'r canllawiau nodi'r mathau o ddata cymharol y dylid eu defnyddio a dylid defnyddio'r ffigurau CIPD diweddaraf er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei chasglu gan bob sefydliad.*

Ymateb: **Derbyniwyd**.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn dosbarthu canllawiau arfer gorau ar adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch i gefnogi sefydliadau wrth baratoi'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol nesaf.

*Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid i gasglu mewnbwn ar wella tryloywder a hygyrchedd ei ddogfennaeth gyfrifyddu.*

Ymateb: **Derbyniwyd**.

Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru bod y pwysau ar sefydliadau bach o ran archwiliadau a chraffu yn gymesur, ac er ei bod yn amlwg bod lle i wella, barn y Llywodraeth yw bod Gyrfa Cymru wedi llunio adroddiad o ansawdd da y tro hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu copi o'i chyfrifon ei hun gyda Gyrfa Cymru ac mae'n barod i gynghori ar dryloywder a hygyrchedd. Mae Careers Choices/ Dewis Gyrfa CCDG, sy'n masnachu o dan yr enw Gyrfa Cymru, yn Gwmni Cyfyngedig sy'n gorfod cydymffurfio â chyfraith cwmnïau a chyflwyno'i gyfrifon yn ffurfiol i Dŷ'r Cwmnïau. Bydd yn rhaid ystyried unrhyw newid yn y dyfodol i'r ffordd y caiff y cyfrifon eu cyflwyno yn unol â'r gofynion cyfreithiol hyn.

*Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gyrfa Cymru i ddatblygu a gweithredu ei weledigaeth strategol.*

Ymateb: **Derbyniwyd.**

Mae'r llythyr cylch gwaith i Gyrfa Cymru ar gyfer 2017-18 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n gryf weledigaeth y Bwrdd ar gyfer datblygu gwasanaethau'r cwmni yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r cwmni i ystyried pa gefnogaeth ychwanegol y bydd ei hangen, os bydd ei hangen, i gyflymu datblygu a gweithredu'r weledigaeth. Bydd rhaglen reolaidd o gyfarfodydd rhwng Gweinidogion a Chadeirydd y Bwrdd, wedi'i hategu gan adroddiadau perfformiad bob chwarter, yn helpu i fonitro'r cynnydd.

*Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i egluro'r safonau penodol y mae'n ofynnol i Gyrfa Cymru gydymffurfio â hwy.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Pan fydd yn cynnal gweithgaredd y pennwyd iddo gan Weinidogion Cymru, rhaid i Gyrfa Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y maent yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac mae wedi cael gwybod am ei ddyletswyddau yn y cyswllt hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Gyrfa Cymru i helpu i sicrhau bod Gyrfa Cymru yn deall y safonau ac yn cydymffurfio â hwy.

*Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cynnwys yr angen am ddarpariaeth Gymraeg briodol ledled Cymru yn ei brosesau meithrin gallu ac yn ystyried sut y gall ddiwallu anghenion y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'w gleientiaid. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio'r llythyr cylch gwaith blynyddol i gyflwyno'n glir y disgwyliadau ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog.

Mae gan Gyrfa Cymru gontract gyda darparwr i hwyluso sgyrsiau gydag unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Mae'r darparwr hwn yn galluogi'r cwmni i gael mynediad i gyfieithwyr yn ôl y gofyn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu sut y mae Gyrfa Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau bod y cleientiaid hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg yn cael mynediad at ei wasanaethau.

*Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn datblygu ei wefan i'w gwneud yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud y gwaith hwn, dylid sicrhau ei bod yn gyson â thechnoleg symudol, ac y gellir ei llywio'n hawdd. Hoffem weld gwelliannau i'r wefan yn ystod y 12 mis nesaf, a'r gwaith cyfan wedi'i gwblhau o fewn dwy flynedd.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae gweithredu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Gyrfa Cymru yn ddibynnol ar drawsnewidiad digidol sylweddol, gan gynnwys ailddatblygu'r wefan.

Bydd y cam cyntaf o welliannau i'r wefan wedi'i gyflawni erbyn haf 2017 a bydd yn cynnwys golwg a naws newydd, a hynny wedi'i gefnogi gan welliannau gwe-lywio, yn unol â phwyslais y weledigaeth ar wasanaethau i bobl ifanc ac ysgolion. Bydd y datblygiad hwn hefyd yn fwy cydnaws â safonau digidol Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd mae Gyrfa Cymru yn cael cyngor arbenigol annibynnol er mwyn llywio'i gynlluniau ar gyfer trawsnewidiad digidol yn y dyfodol, a bydd yn cyflwyno'i raglen ar gyfer trawsnewidiad digidol yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2017-20. Mater i'r Cadeirydd fydd adrodd i Weinidogion ar weithredu'r cylch gwaith a'r cynllun busnes.

*Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cyhoeddi ei ddata absenoldeb oherwydd salwch yn ei adroddiad blynyddol er mwyn gwella tryloywder.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'n gyson y wybodaeth a anfonir ati'n rheolaidd ac fel mater o drefn gan Gyrfa Cymru fel rhan o'r gofynion monitro ac adrodd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gyrfa Cymru gyhoeddi'r wybodaeth hon mewn adroddiadau yn y dyfodol.

*Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i asesu a fyddai uno cronfeydd pensiwn Gyrfa Cymru yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a gwerth am arian ar gyfer y dyfodol.*

Ymateb: **Derbyniwyd mewn egwyddor**

Gwnaed gwaith yn y gorffennol i ystyried yr opsiynau ar gyfer cyfuno cytundebau derbyn â gwahanol Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol. Y farn ar y pryd oedd na fyddai'n briodol uno cronfeydd; yn rhannol am y byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru roi bond neu warant sylweddol. Gan gydnabod y bu newidiadau o fewn y cwmni ers 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses a'r opsiynau. Mater i Fwrdd Gyrfa Cymru yw unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â hyn.

*Argymhelliad 10. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac adeiladu ar y gwaith cadarnhaol hyd yma, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal*

*gwerthusiad o’r wybodaeth a geir o fewn y cyfrifon cyfunol er mwyn sicrhau ei bod yn dweud wrth bobl yr hyn sydd angen iddynt ei wybod a’r hyn y maent am ei wybod. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y gwariant yn erbyn y gyllideb ym mhob un o’r prif grwpiau gwariant.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y modd y caiff gwybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol ei chyflwyno, yn unol â’r prosiect ehangach i symleiddio. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu’r ffordd y mae’n cyflwyno gwybodaeth ar gyllidebau ar gyfer pob prif grŵp gwariant a lle y bo’n bosibl bydd yn cynnwys dolenni i ddogfennau eraill gan Lywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion. Byddwn hefyd yn rhoi esboniad mwy cynhwysfawr o’r gwahaniaethau rhwng alldro a chyllideb. Bydd unrhyw newidiadau yn canolbwyntio ar ran un o’r cyfrifon lle mae mwy o hyblygrwydd o ran sut y caiff gwybodaeth ei chyflwyno.

*Argymhelliad 11. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei threfniadau goruchwylio ar gyfer cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ond sy’n cael eu gweinyddu gan sefydliadau allanol, i sicrhau bod camau diogelu ar waith i atal twyll.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn trefnu adolygiad o’r trefniadau goruchwylio ar gyfer cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy’n cael eu gweinyddu gan sefydliadau allanol fel rhan o’i rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18, gyda’r nod o asesu a oes trefniadau diogelu digonol a chymesur ar waith i atal twyll. Nid yw’r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn wedi’i ddiffinio eto, ond mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn disgwyl y bydd yn edrych yn gyntaf ar drefniadau goruchwylio o safbwynt gweithdrefnau ar draws Llywodraeth Cymru, ac wedyn yn dewis meysydd grant penodol i astudio arferion yn fwy manwl. Er mwyn edrych ar hyn o safbwynt mor eang â phosibl, gallwn gymryd sicrwydd hefyd o drefniadau archwilio presennol eraill mewn perthynas â rhoi grantiau, er enghraifft, archwiliadau’r Tîm Archwilio Cyllid Ewropeaidd o dderbynwyr grantiau’r Gymuned Ewropeaidd ac unrhyw astudiaethau perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru megis yr astudiaeth arfaethedig o grantiau i fusnesau Cymru.

*Argymhelliad 12. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf ar fanylion y trefniadau a roddwyd ar waith i gryfhau’r system o ran gweinyddu taliadau teithio rhatach.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn olrhain gwelliannau i brosesau a rheoli a roddwyd ar waith mewn perthynas â theithio rhatach. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y tro nesaf y bydd yn ystyried materion cyfrifyddu, cyn craffu ar gyfrifon 2016/17, neu ar gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

*Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am ganran y caffael gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael ei ddyfarnu i gwmnïau o Gymru.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r wybodaeth hon yn rhan un o'r cyfrifon.

*Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol nesaf yn ystyried a yw'r strwythur uwch reoli a'r fframwaith sicrwydd presennol yn ddigon cadarn yn enwedig o ran atebolrwydd a goruchwylio'r broses o ddarparu polisïau.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Bydd yr argymhelliad yn cael ei wneud yn hysbys i'r Ysgrifennydd Parhaol nesaf.

*Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Tasglu Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd o enghreifftiau o arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae'r Tasglu Gorchwyl a Gorffen bellach wedi dod i ben, ac ystyriodd arfer gorau mewn rhannau eraill o'r Gwasanaeth Sifil fel rhan o'i waith. Argymhellodd y Tasglu y dylid datblygu Strategaeth Llesiant i hyrwyddo mesurau ataliol o ran iechyd ac i helpu i sicrhau bod cyflogeion a rheolwyr yn ymwybodol o ble i gael cyngor a chefnogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried arferion gorau o amrywiaeth o sefydliadau wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

*Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gwael a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod y broses o reoli perfformiad yn cael ei rheoli'n gadarn.*

Ymateb: **Derbyniwyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad gwael, sy'n cynnwys datblygu a rhoi ar waith Gynlluniau Gwella Perfformiad unigol pan fo rheolwr llinell yn ystyried bod perfformiad rhywun yn gwaethygu, heb aros am adolygiadau perfformiad chwe-mis neu am ddosbarthiad ffurfiol o danberfformio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn gweithio yn y blynyddoedd diwethaf ar wella cryfder y system o gategoreiddio perfformiad ('box-marking') drwy ddull cyson a gofalus o gymedroli'r categorïau ar draws graddau ac adrannau.

Fel yr adlewyrchwyd yn adroddiad y Pwyllgor fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cydnabod bod angen gwneud mwy i wella sut y caiff perfformiad gwael ei reoli. Gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i'w gweithdrefnau rheoli perfformiad ar ddechrau'r flwyddyn adrodd 2016-17. Diben y newidiadau oedd

gwneud trafodaethau rhwng cyflogeion a rheolwyr am berfformiad a datblygiad yn fwy ystyrlon a chynhyrchiol, gan gynnwys pan fo pryderon am lefelau perfformiad. Mae’r newidiadau yn unol â datblygiadau ar draws y Gwasanaeth Sifil yn fwy cyffredinol a chânt eu hadolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf o’u gweithredu.